Prosiect Gwirfoddoli mewn Cartrefi Gofal
Ymwybyddiaeth o Ddementia a gweithdy Zoom REAL Communication ar gyfer gwirfoddolwyr

Amlinelliad o'r gweithdy
Gall dod yn fwy ymwybodol o ddementia a meithrin dealltwriaeth o sut mae'r byd yn edrych drwy lygaid person â dementia helpu gwirfoddolwyr i ymgysylltu â'r preswylwyr y maent yn treulio amser gyda nhw, eu hannog i agor eu calonnau a gweld y person y tu ôl i'r dementia ac yna datblygu ymgysylltiad mwy ystyrlon a phleserus â nhw – REAL Communication.

Ymwybyddiaeth o Ddementia
Mae'r gweithdy dwy awr hwn wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer gwirfoddolwyr ar y prosiect. Bydd yn cynnwys straeon, ymarferion rhyngweithiol a thrafodaeth. Bydd sleidiau pwynt pŵer yn arwain yr amserlen a darperir llawlyfr i gefnogi'r cynnwys, y gweithgareddau a'r dysgu.

Byddwn yn trefnu sesiwn adborth dilynol fel y gall cyfranogwyr rannu eu profiadau a'u harsylwadau o ddefnyddio'r technegau gyda ni.

'Beth?'
Mae'r rhan gyntaf yn canolbwyntio ar adeiladu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ddementia gan gynnwys yr ymennydd, y cof, y daith dementia a'r hyn y mae'r cyfan yn ei olygu i'r unigolyn.

'Sut?' a 'Pam?'
Mae'r ail ran yn sôn am gyfathrebu â pherson â dementia, yng nghyd-destun Atgofion, Ymgysylltu Empathig, Gwrando Gweithredol a Stori Bywyd – y 'Fframwaith REAL Communication'. Rydym yn ystyried amrywiaeth o faterion ymddygiadol; a sut i ymgysylltu'n fwy dilys â'r person sy'n byw gyda dementia.

Teuluoedd
Mae'r gweithdy'n ystyried rhai o'r heriau sy'n wynebu teuluoedd ag anwyliaid sy'n byw mewn cartref gofal yn ystod Covid - yn enwedig os oes ganddynt ddementia – a sut y gall gwirfoddolwyr helpu i'w cefnogi, yn ogystal â'r tîm preswylwyr a staff.